
### *I'ch silff lyfrau*





Pa un yw'r cyfieithiad gorau – neu'r cywiraf – o adnod gyntaf Salm 100? Ai 'Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear' (1620) ynteu 'Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r Arglwydd, yr holl ddaear' (2004).

Mae'r ddau fersiwn i'w clywed ar *Cenwch yn Llafar*, 2 CD a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan gwmni Tympan. Detholiad y Parch Owain Llyr Evans, Caerdydd, o 33 o salmau a geir yma, a daw'r darllenwyr o bob cwr o Gymru – yn eu plith y Parch. John Tudno Williams o'r ofalaeth hon. Pris £13.99




Mae Cymdeithas y Beibl yn cynnig gostyngiad arbennig ar y Testament Newydd Dwyieithog, a gyhoeddwyd yn 2006. Mae'r ddau fersiwn a gynhwysir yn rhai diweddar: sef, yr argraffiad diwygiedig o'r Beibl Cymraeg Newydd (2004) a'r Saesneg o'r English Standard Version (2001). Am gyfnod penodol yn unig, bydd y gyfrol ar gael am £9.99.




*Pobl y Ffordd: hanes 100 o Gristnogion Cymru* (Alun Tudur)

Cyfrol sy'n ymdrin ag 'arwyr y ffydd' – seintiau, ysgolheigion a phregethwyr sy'n esiampl ac yn ysbrydoliaeth i'n cenedl. Mae'r awdur yn dangos sut mae 'Pobl y Ffordd' ar hyd y canrifoedd wedi ceisio mynegiant cyfoes i'w ffydd. Ar gael am £4.99 (hanner pris).

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 8 Mehefin:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com

Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 3 Gwanwyn 2008




*Y mae wedi ei gyfodi*

Annwyl ffrindiau,

Stori dda yw honno am y Crist Atgyfodedig yn ymddangos i'r saith disgybl ar lan Môr Tiberias. Erbyn hyn, rhyw griw bach digon digalon oedd y disgyblion, pobl siomedig ac isel eu hysbryd, dynion a oedd wedi dechrau colli ffydd yn eu Meistr. Yr oedd hi'n ymddangos fel petai'r Iesu wedi'u gadael i lawr. Y mae'n wir iddynt ei weld ar fwy nag un achlysur wedi'i Atgyfodiad a'u bod hwy hefyd wedi'u galw ganddo i'w wasanaethu yn y byd. Eto i gyd, yr oedd y dyddiau fel petaent yn gwibio heibio yn awr a dim byd o bwys yn digwydd.

Am hynny, penderfynodd saith o'r disgyblion ddychwelyd i'w cynefin ar lan Môr Galilea a thra oedden nhw'n gwylio'r cychod eraill allan ar y llyn efallai, cytunwyd mai'r unig beth i'w wneud oedd mynd yn ôl at yr hen grefft o bysgota – gwaith cyfarwydd, lle cyfarwydd, amser cyfarwydd. Ond yn rhyfedd iawn, er iddynt fod wrthi'n pysgota drwy'r nos, ni ddaliasant ddim. Beth oedd o'i le? Y mae'n wir fod rhyw dair blynedd wedi mynd heibio ers iddynt fod wrthi yn pysgota o'r blaen. Er hynny, go brin eu bod wedi colli'r ddawn. Yr un oedd y llyn a'r nos oedd hi, yr amser gorau i bysgota.

Ond yr oedd pethau yn mynd i newid. Wrth i'r wawr dorri fe welodd y disgyblion rhyw ddieithryn yn sefyll ar y lan, ac y mae yntau yn eu holi am eu diffyg llwyddiant y noson cynt. Wedi i'r disgyblion gyfaddef na ddaliasant ddim, y mae'n galw arnynt i fwrw'r rhwyd i'r ochr dde i'r cwch. Y fath lwyddiant! Cymaint oedd y pysgod a ddaliwyd ganddynt fel nad oedd modd tynnu'r rhwyd i mewn i'r cwch. Sylweddolodd y disgyblion yn fuan mai'r Iesu oedd y dieithryn ac fe lanwyd eu calonnau â gobaith newydd. Yn lle edrych yn ôl yn ddigalon ar yr hen amserau, dyma'r disgyblion yn awr yn edrych ymlaen at ddyddiau gwell i ddod. Ymhen ychydig amser, o dan ddylanwad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, mi fyddent yn mynd allan i genhadu yn y byd gan ddangos dewrder anghyffredin a nerth anhygoel. Fe fu'r profiad o adnabod y dieithryn ar y lan yn gyfrwng i wneud y disgyblion yn ddynion newydd.




Yr adeg hon roedd diwinyddion yr 'Ysgol Newydd' ryddfrydig a'r 'Hen Ysgol' geidwadol yn America yn ymladd 'am enaid yr Eglwys Bresbyteraidd', gyda'r ceidwadwyr am ddarllen yr Ysgrythur yn llythrennol a'r 'Ysgol Newydd' am ei gweld fel ffordd o arwain pobl at Grist ac at yr iachawdwriaeth yn yr efengyl yn hytrach nag fel 'cofnod di-wall o ffeithiau hanesyddol neu wyddonol diymwad'. '*Can we not make it less of a theorem and more of a hymn*?' oedd geiriau cofiadwy Llewelyn Evans.

Yn **Rhai Seicolegwyr Cymraeg Cynnar** mae T G Davies yn trafod rhai o'r gwahanol ymdrechion a fu oddi ar y 18fed ganrif i 'ddarganfod rhagor am natur y bersonoliaeth ddynol' – ffrenoleg, ysbrydiaeth, mesmeriaeth (hypnosis), hyd at seicdreiddiaeth, seicoleg a seiciatreg fodern. Ymhlith y Cymry fu'n ymchwilio ceir enwau'r naturiaethwr Arthur Russell Wallace a Dr Ernest le Cronier Lancaster, ffisegwr o Abertawe. Rhoir teyrnged uchel i 'waith arwrol' AS Sir Drefaldwyn, Charles Watkin Williams Wynn, am sicrhau'r hawl i'r awdurdodau sirol agor eu gwallgofdai eu hunain drwy Ddeddf y Gwallgofdai Sirol 1808, a hynny'n arwain at hyfforddi cenhedlaeth o feddygon a thrawsnewid agwedd y rhai a weithiai ynddynt tuag at broblemau'r sâl eu meddwl. William George Davies, gŵr o Sir Aberteifi a fu'n gaplan yng Ngwallgofdy Sir Fynwy, sy'n cael fwyaf o sylw yn yr ysgrif, er na fyddai 'o bell ffordd' yn cael ei ystyried yn arloeswr. Ni fyddai unrhyw ysgrif ar y pwnc yn gyflawn, wrth gwrs, heb gyfeiriad at Alfred Ernest Jones o Dregŵyr, prif ladmerydd gwaith Freud, gŵr y cerddor Morfudd Llwyn-Owen, a'r seicolegydd Cymreig cyntaf o wir bwys.

Felly dyna godi cwr y llenni ar yr arlwy – digon o wybodaeth i'w threulio ac i gnoi cil arni. Os yw e at eich dant chi, y *Traethodydd* amdani!

*Llinos Dafis*

## *Y Traethodydd* (Ionawr 2008)

Un o gyhoeddiadau Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw'r *Traethodydd*, er nad yw hynny'n cael ei ddweud arno. Mae'n cael ei gyhoeddi bob chwarter dan olygyddiaeth yr Athro Brynley Roberts. Dyma grynodeb byr iawn o gynnwys difyr a gwybodus rhifyn mis Ionawr 2008.

Y gwahaniaethau anferth a gafwyd yn yr ymdrechion i esbonio tswnami ddydd San Steffan 2004 a thrychinebau naturiol eraill tebyg symbylodd ysgrif wych R Gareth Wyn Jones, Bangor, **Tswnamis bach a mawr.** Dehonglodd rhai o gynrychiolwyr dwy o grefyddau mawr y byd (Cristnogaeth ac Islam) y digwyddiadau fel arwyddion o ddicter Duw, tra bod rhai arweinwyr crefyddol eraill yn fwy cymedrol a rhesymol; dyfyniad gan y gwyddonydd J B S Haldane sy'n crynhoi ymateb diymhongar gwyddonwyr ar ôl tair canrif o ymchwil ac arbrofi gwyddonol, *'The universe is not only queerer than we suppose, it is queerer than we can suppose'.* Er hynny, mae'r Creadigaethwyr a Christnogion ffwndamentalaidd eraill yn dal i fynnu glynu at ddehongliad llythrennol o fersiwn pennod gyntaf Genesis o greu'r Bydysawd mewn chwe diwrnod 'gwta chwe mil o flynyddoedd yn ôl'.

Mewn ysgrif rymus a gwybodus sy'n dwyn barn gwyddonwyr, athronwyr a diwinyddion ynghyd, cawn ein harwain a'n herio i feddwl ac ailfeddwl am ein tybiaethau ni'n hunain – ai ofer yw ceisio creu deialog perthnasol i'n hoes ni ar fythau ein hynafiaid? – nas bwriadwyd i fod yn werslyfrau daearegol, biolegol na genetegol.

Hanes **Llewelyn Ioan Evans** sydd gan D Densil Morgan. Ymfudodd o ardal Bangor i'r Unol Daleithiau yn 1850, yn 17 oed, a'i fagu mewn mans Presbyteraidd Cymraeg yn Wisconsin. Ar ôl cyfnod o lenydda – ynghanol bywiogrwydd syfrdanol bywyd diwylliannol Cymry Cymraeg America'r 1850au – trodd at ddiwinyddiaeth, fel ei dad a'i ddau daid, a datblygu'n ysgolhaig ac yn ddiweddarach yn lladmerydd traddodiad rhyddfrydig yr Eglwys Bresbyteraidd yn America ar y pryd – a hynny'n addas iawn gan ei fod wedi ei fagu yn nhraddodiad rhyddfrydig cymedrol y Methodistiaid Calfinaidd a oedd 'yn ochri nid gyda John Elias ond gyda'r sawl oedd am ryddhau cyfundeb y Methodistiaid oddi wrth hualau Uchel-Galfiniaeth'.

Y mae angen i ninnau heddiw hefyd gael yr un profiad personol o'r Crist Atgyfodedig. A welsom ni Ef y Pasg diwethaf hwn? Ai rhyw ddieithryn ar orwel pell yn unig ydoedd heb i ni fod wedi'i adnabod o gwbl? A fynnodd amheuaeth ac anghrediniaeth gael y gorau ar ein ffydd? A gawsom ein gwneud yn bobl newydd neu ynteu, ai pobl ddigalon, ofnus a siomedig ydym, yn teimlo nad oes fawr o gynnydd ar ein gwaith?

Peidiwn â digalonni. Neges obeithiol yw un y Pasg bob amser. Dathlu buddugoliaeth a wna'r Eglwys, buddugoliaeth fod Bywyd yn drech nag angau a bod cariad Duw yn drech na chasineb dyn. Felly, seiniwn yr Haleliwia am fod Mab Duw wedi concro marwolaeth ac wedi rhwygo pyrth y bedd. Yng ngeiriau emyn Siôn Aled:

> Mae Iesu'n fuddugol, a'i bobol gaiff fyw
> yn fwy na choncwerwyr drwy gariad Mab Duw;
> er profi gorthrymder neu newyn neu gledd
> does ball ar y cariad agorodd y bedd.
>
> Molwch ef! Molwch ef! Mae'r gad wedi troi.
> Molwch ef! Molwch ef! Mae'r gelyn yn ffoi;
> mae Iesu'n fuddugol, a'i bobol gaiff fyw
> yn fwy na choncwerwyr drwy gariad Mab Duw.

Pasg hapus a buddugoliaethus i chi i gyd!

Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas

Wyn Morris (Bugail)


47, Glan Ceulan
Penrhyn-coch
Aberystwyth
SY23 3HF

e-bost: morris@coedlas.plus.com

(01970 820920)

# Tudalen y Plant

## Y mae wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw. (Mathew 28: 7)



### Chwilio'r Geiriau.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | C | Y | N | T | A | F | A | C | E |
| Dd | E | A | Ng | I | L | O | Dd | A | Y |
| O | Rh | D | E | S | Ll | Y | B | I | D |
| L | I | S | M | U | N | Th | Y | D | O |
| E | U | R | D | E | A | U | O | O | F |
| Ng | M | Y | W | R | Y | R | E | F | N |
| A | D | A | E | A | R | G | R | Y | N |
| E | Ll | I | U | Ll | W | Y | I | C | O |
| A | O | S | D | Y | Rh | G | A | N | W |
| B | Dd | E | B | E | Ng | A | M | Y | T |

IESU
CYFODI
OFN
LLAWENYDD
ADDOLI
DWEUD

CYNTAF
GWAWRIO
MAIR
BEDD
DAEARGRYN
ANGEL

**Llongyfarchiadau i Gwennan Evans, Capel Seion, enillydd cystadleuaeth 'Tudalen y Plant'.**

**Y tro yma, y gamp yw datrys chwilair y Pasg. Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn 25 Mai. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het. Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.**

## *Margaret Alwen Williams, Pen-y-wern*

Er ein bod mewn oes pan mae yna duedd i fyw yn hŷn, prin eto yw'r rhai sydd yn croesi'r cant, ond roedd y foneddiges hon wedi llwyddo i fynd tu hwnt i hynny, gan ei bod yn 101 yn ffarwelio â ni.

Ganwyd Alwen Williams ar fferm Hendre Glan Alwen, Llanfihangel Glyn Myfyr, yn un o naw o blant, ac yna symud gyda'r teulu i fferm Pen-y-bryn, Llandegla yn ddiweddarach. Ar ôl dyddiau ysgol, penderfynodd fynd yn nyrs a threuliodd gyfnod yn ymbaratoi. Yn ddiweddarach aeth i ofalu am un a ddaeth wedi hynny'n dad yng nghyfraith iddi, i Gwernhefin yn ardal Llanuwchllyn, gan iddi briodi'r mab, E H Williams. Yn Gwernhefin y ganwyd dau o'r plant, sef Dorothy a Mair. Symud i Ben-y-wern yn 1938, ac yno y ganwyd Robert ac Ann.

Gan fod ei phriod yn amaethwr penigamp ac yn un o brif fridwyr gwartheg duon Cymreig, bu'n gefn mawr iddo yn y maes hwnnw, ac yr oedd ganddi hithau ddiddordeb mawr yng nghrefft gyntaf dynolryw. Yr oedd yn frenhines ar ei haelwyd, a mawr oedd y croeso i bawb a alwai ym Mhen-y-wern. Ond yr oedd ganddi ddiddordebau eraill tu allan i'r cartref a'r fferm. Gan fod ei phriod yn flaenor ac yn ysgrifennydd diwyd a gofalus yn Eglwys Rehoboth, Taliesin, am lawer o flynyddoedd, yr oedd Mr a Mrs Williams yn nodedig o ffyddlon yno ac yn bresennol ym mhob oedfa, a bu eu cyfraniad i fywyd yr eglwys yn anfesuradwy. Bu cefnogaeth y ddau i'r Eisteddfod Fach a gynhelid yn flynyddol gan Gymdeithas Unedig Soar Tre'r-ddol a Rehoboth yn un i'w hedmygu, a mawr fyddai'r paratoi gan y ddau ar ei chyfer, a Mrs Williams yn adrodd darnau meithion ar ei chof a hithau'n tynnu at y cant oed.

Yr oedd yn wraig hynod o ddiwylliedig a darllenai yn eang. Yr oedd bob amser wedi gwisgo'n drwsiadus a golwg fonheddig arni lle bynnag y gwelech hi. Bu colled Llanuwchllyn yn ennill mawr i ni yn yr ardal yn nyfodiad y teulu yma 'n plith.

Rhodiodd yng ngolau credo—yn ei sêl
Yn solet heb wyro
Yn ei gwisg ac o osgo
Bu'i rhawd yn batrwm i'w bro.

(Dafydd Hughes Jones)

*Elwyn Pryse*

### *Priodas yn Rehoboth*



Ar fore Dydd Gŵyl Dewi, yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, cafwyd achlysur hapus iawn pan briodwyd Ffion Meleri Davies, merch Brian a Beti Wyn Davies, Rhos, ac Ifer Gwyn, mab ieuengaf Enid ac Allan Wynne Jones, Hengwrt, Machynlleth.

Gwasanaethwyd y briodas gan ein gweinidog, Y Parchedig Wyn Rhys Morris, a chafwyd datganiadau pwrpasol ar y delyn a'r organ gan Llio Penri. Y gweision bach oedd Iago Owen Gwyn ac Ifan Prys Jenkins a'r forwyn briodas oedd Branwen Gwyn. Cafwyd darlleniadau pwrpasol yn y gwasanaeth gan dad y briodferch, Brian Davies, a chan dad y priodfab, Allan Wynne Jones. Mwynhawyd gwledd fendigedig a bwffe gyda'r nos i ddathlu'r briodas yng Ngwesty Tyn-y-cornel, Tal-y-llyn. Diolch i reolwraig Tyn-y-cornel, Mair Jones, a'i staff am drefniadau gwych o'r safon ucha'.

Dychwelwyd i'w cartref yn Stryd Plasuchaf, Dolgellau, ac yn ôl i'w gwaith fore Llun – a threulio eu mis mêl yn Slofacia a Bratislava yn ystod gwyliau'r Pasg. Mae Ffion yn Athrawes Gelf yng Ngholeg Meirion Dwyfor ac mae Ifer yn Rheolwr Prosiectau ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Dymunwn bob hapusrwydd ac iechyd da iddynt yn y dyfodol.



Rhai o blant ysgol Sul y Garn a fu'n cymryd rhan
yng ngwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth



Criw Os Mêts yn mwynhau'r cawl yn eu noson Cawl a Chwis
i ddathlu Gŵyl Ddewi

# Os Mêts: Gweithgareddau Gwanwyn 2008

## A'n Pen Blwydd Cyntaf



*gan Gwen a Gwilym (Madog)*

Mr Dewi Hughes a Mr Glyn Saunders Jones yn bennaf a aeth i'r afael â threfnu a pharatoi'r rhaglen beilot lwyddiannus a gafwyd yr amser hon y llynedd, pan gawsom noson yn Theatr y Werin, **sesiwn nofio** yng Nghlarach, **gweithdy theatr**, ymweliad â throfannau'r **Pili-Palas yng Nghwm Rheidol**, a chwaraeon a **barbiciw** ar draeth Ynys-las. Roedd digon o amrywiaeth a hwyl rhwng popeth, ac roedd pobl ifainc o bob cwr o'r ardal wedi ymuno.

Cychwynnodd rhaglen 2007–8 ddechrau mis Hydref gyda sesiwn o **chwaraeon a sgyrsiau** gan griw Coleg y Bala. Roedd yn dda cael cyfle i drafod, yn ogystal ag i chwarae, ond roedd yn biti fod cyn lleied wedi dod i'r cyfarfod hwn. Roedd y **sesiwn nofio ac ymlacio yn jacuzzi** Glan-y-môr wedi denu nifer go dda, fodd bynnag, fel y gwnaeth yr ymweliad â **phantomeim Theatr Felin-fach** ganol Tachwedd.

Nosweithiau yng nghwmni'r **Parchedig Richard Lewis** a'r **Bugail, Y Parchedig Wyn Morris,** a gafwyd yn y flwyddyn newydd. Tristwch mawr inni oedd clywed am farwolaeth sydyn **Siôn Ifan Evans** o Goleg y Bala: gohiriwyd y noson a oedd i'w chynnal ganddo ef a'i gyd-weithwyr.



Ar wahân i ymweld â'r cartrefi buom yn ymweld â'r Ysgol Feithrin, Ysgol Gynradd yr Hendre, Coleg Camwy (a Dafydd Rhys Jones, y prifathro cyntaf, wedi bod yn dysgu Elwyn Pryse yn Ysbyty Ystwyth yn ddiweddarach – holwch Elwyn am Jones Pat!), Ysgol i Blant gydag Anghenion Arbennig, a dwy ysbyty. Gan fod Jessica Jones o Aberllefenni yn gweithio'n wirfoddol am flwyddyn yn yr Ysgol Anghenion Arbennig ac yn cynorthwyo yn yr Ysgol Feithrin ac Ysgol yr Hendre, roedd fy nghyfeillion yng nghapeli Aberhosan a Llanwrin am inni fynd â rhodd i hybu'r gwaith yno. Nid anghofiwn y diwrnod y buom yn yr ysgol a gweld wynebau llawen y plantos a derbyn gwerthfawrogiad y staff.

Yr un oedd ein profiad yn Ysbyty Gaiman lle mae prinder adnoddau, wrth inni gyflwyno rhodd gan gynulleidfa'r Graig a Maengwyn, Machynlleth. Defnyddir peth o'r arian i brynu offer newydd a chyfran i baentio'r wardiau am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Roedd yn briodol fy mod yn cyflwyno'r rhodd fel gweinidog, gan mai John Caerenig Evans, brodor o'r Garnant, a gweinidog yng Nghwmaman, un o'r gweinidogion cyntaf i fynd i'r Gaiman, roddodd y tir a'r adnoddau i godi'r ysbyty. Heol J. C. Evans yw'r un agosaf at Heol Michael D. Jones yn y Gaiman. Roedd llun da o'r hen batriarch yng nghyntedd yr ysbyty. Daeth ei fab Tudur i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin i'w hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth gan ddychwelyd i olynu'i dad ym Methel, Gaiman. Rhoddodd y tad a'r mab 62 o flynyddoedd o wasanaeth i'r saint yno.



*W J Edwards*

### *Patagonia*

Ar ôl i Gwenda a minnau ymsefydlu yn Llanuwchllyn ym 1967, ddwy flynedd wedi dathlu Canmlwyddiant y Wladfa, clywsom sôn yn aml am Batagonia gan Tom ac Ethel Jones, Godre'r Aran, a oedd ymhlith y criw a fu yno yn y dathlu. Yn ddiweddarach cawsom y fraint o groesawu cyfeillion oedd yn ymweld â gwlad eu hynafiaid, yn eu plith criw o 75 a ddaeth i'r Hen Gapel ym 1975 i gyflwyno cofeb Cymraeg/Sbaeneg gan Gymdeithas Dewi Sant i gofio am Michael D Jones. Roedd wedi'i eni yn Nhŷ'r Hen Gapel ar 3 Mawrth 1822, pan oedd Michael ei dad (o Neuaddlwyd, Aberaeron) yn weinidog ar fam eglwys Annibynwyr Meirionnydd.

Yn ystod ein chwarter canrif yn Llanuwchllyn cawsom sawl gwahoddiad i bererindota i'r Wladfa ond bu raid aros tan Fedi 2007 cyn cael gwireddu'n breuddwyd. Gyda chopi o *Y Wladfa yn dy Boced* gan Cathrin Williams yn gydymaith gwerthfawr, dyma fentro am dri mis i weinidogaethu ar wahoddiad Undeb Eglwysi Rhyddion y Wladfa.



Ar ôl profi croeso hael y cyfeillion yn Nhrelew a'r Gaiman bwrw iddi i gynnal oedfaon ac ymweld â nifer fawr o bobol. Un dosbarth Ysgol Sul Cymraeg sydd yno bellach ac ar ôl oedfa'r bore yn y Tabernacl, Trelew, roedd yn rhaid imi arwain y dosbarth a hynny heb doriad i goffi! Ymhen awr deuai llu o blant ac ieuenctid i mewn o'r Ysgol Sul Sbaeneg a cheid sesiwn o ganu (ambell emyn yn Gymraeg) cyn ymadael. Ar ôl ymron deirawr yn y capel roedd yna hen edrych ymlaen am ginio. Gan fod pawb yn cael siesta wedyn doedd dim oedfa tan 4 neu 5 o'r gloch.

Roedd y **Noson Gawl a Chwis** a gynhaliwyd ar 27 Chwefror fel rhagflas o Ddydd Gŵyl Ddewi yn sbort — gyda **Lyn Lewis Dafis** o'r Llyfrgell Genedlaethol yn gwisfeistr hwyliog heb ei ail.



Mae ei ymateb positif yntau i'r noson i'w weld ar flog difyr Lyn ynghyd â rhai o'r cwestiynau a osodwyd, a nifer o luniau.

Ewch i weld y cwbl ar http://blogdogfael.org./page/2/

Cyn y cwis, cawsom fwyd cartref blasus wedi'i baratoi gan dîm o gogyddion dan arweiniad **Mrs Vera Lloyd**.

Diolch iddyn nhw i gyd.

Mrs Lloyd hefyd sydd wedi gwneud y trefniadau ar gyfer y fenter ddyngarol, sef prynu geifr i helpu'r tlodion yn y Trydydd Byd.

Bydd ei chywion (ar y dde) ar werth er mwyn codi arian.



Ar ddiwedd y noson fe deimlon ni fod y clwb yn mynd o nerth i nerth, a gobeithio y bydd nifer dda'n dod eto Nos Fercher 12 Mawrth pan fydd criw Coleg y Bala yn trefnu noson o gemau a gweithgareddau eraill.

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth***

***31 Mawrth*** Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
yn festri'r Garn am 7 o'r gloch

***Rihyrsals ar gyfer y Gymanfa***

Nos Fercher 2 Ebrill, Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth

Nos Fercher 9 Ebrill, Bethel, Tal-y-bont

Nos Fercher 16 Ebrill, Bethel, Aberystwyth

Nos Fercher 23 Ebrill, Horeb, Penrhyn-coch

Nos Fercher 30 Ebrill, Y Garn, Bow Street

Nos Fercher 7 Mai, Y Morfa, Aberystwyth

Bydd pob rihyrsal yn dechrau am 7 o`r gloch

***11 Mai*** *Sul y Pentecost*
Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth
Oedfa deuluol am 10 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch

***18 Mai*** *Sul Cymorth Cristnogol*
Oedfa unedig i'r ofalaeth ac aelodau'r Noddfa
am **10.30 o'r gloch**, dan arweiniad y Bugail

Cinio Bara a Chaws i bawb yn dilyn yr oedfa

***25 Mehefin*** Gweithgor Gweithgaredd Ieuenctid Os Mêts
yn festri'r Garn am 7 o'r gloch

**Cymdeithas y Paith**

Daeth tymor 2007–08 i'w derfyn ar 5 Mawrth gyda noson o ddathlu dwbl, sef Gŵyl Ddewi a Chwarter Canrif bodolaeth y Gymdeithas. Daeth hanner cant o aelodau ynghyd i fwynhau gwledd ym Mhlas Antaron dan lywyddiaeth cadeirydd y flwydddyn, John Gwyn Jones. Croesawodd ef aelodau o bell ac agos, gan gynnwys cyn-aelodau, a braf fu hel atgofion am y dyddiau fu a hefyd dderbyn syniadau ar gyfer rhaglen y tymor nesaf.

Côr Cardi Gân, dan arweiniad Heledd Williams, yn cymryd lle Rhian Dafydd am y flwyddyn, oedd y gwesteion a chafwyd gan y côr ac unigolion raglen amrywiol a chlasurol yn glo teilwng iawn i'r noson.

Ym mis Chwefror bu John ac Ina Tudno yn sôn am eu taith i'r India gan ddangos sleidiau i ddarlunio'r gwahanol ardaloedd yr ymwelwyd â hwy a digwyddiadau'r dathlu y bu'r ddau yn rhan ohonynt – yn bennaf yn Shillong yng ngogledd-orllewin y wlad.

Ym mis Ionawr daeth Nerys a'i Ffrindiau o Dregaron i'n diddanu mewn noson o ganu ac adrodd gan bartïon, unigolion a deuawdau.

Bydd y Gymdeithas yn ail-agor ar 15 Hydref ac yna yn cwrdd yn fisol ar yr ail nos Fercher yn y mis. Cadeirydd y flwyddyn fydd Ina Tudno Williams.

***Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth***

Cyfarfu Cwrdd Chwiorydd Rehoboth yn y festri brynhawn Mawrth, 12 Chwefror, dan lywyddiaeth Eirlys Jones.

Cyflwynwyd i ni Mr Wil Griffiths o Gomins Coch. Cafwyd awr ddiddig yn ei gwmni yn Feistr Cwis ar ddull 'Pwy hoffai fod yn filiwnydd?' Cymerodd amryw ran yn y gystadleuaeth, ac enillydd y wobr gyntaf oedd Mrs Ann Jenkins.

Ymunodd y Parch. Wyn Morris â ni, a diolchodd Eirlys i bawb a gymerodd ran, ac i Ann ac Edna am y paned.

E.J.

## *Seion, Capel Seion*

**Seren y Sgrin Fach**

Ar ddechrau'r flwyddyn gwelwyd cyfres newydd o straeon Sali Mali ar y teledu. Mewn un ohonynt bu llawenydd mawr wrth i Jini a Jac y Jwc ddod yn fam a thad balch iawn i efeilliaid – merch a bachgen. Hyfryd oedd gweld mai Angharad Rhodd, Pencefn, Capel Seion, oedd yn serennu fel y ferch fach. Credwn fod dyfodol i Rhodd fel seren y sgrin a rhaid bod ei brodyr fel ninnau yn falch iawn ohoni.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau gwresog i Lis a Gwyn Hawkins, Tresi Aur, Pant y Crug, ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf, sef Lewis Nathan, mab i Teleri a Fry, 18 Lôn Carreg Bica, Birchgrove, Abertawe.

Llongyfarchiadau i Magdalen Davies, Gwelfro, ar enedigaeth ail wyres, Eos Naomi Dafydd, chwaer fach i Swyn a merch Rhian a Dai, Maes y Delyn, Aberaeron. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r teuluoedd.

**Aelodau Newydd**

Pleser o'r mwyaf fu derbyn trwy lythyrau o Eglwys y Morfa Rhiannon a Maredydd Williams, Tan y Bryn, New Cross, yn aelodau yn Seion. Mewn oedfa gymun dan arweiniad y Parch. Wyn Morris estynnwyd croeso cynnes iddynt ac edrychwn ymlaen at gael eu cwmni yn yr oedfaon a gweithgareddau eraill yr eglwys yn y dyfodol.

**Oedfa Weddi**

Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Seion dan lywyddiaeth Eirlys Williams, Aneddle. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan wragedd Guyana a'r thema oedd **'**Daw Doethineb Duw â Dealltwriaeth Newydd'. Dosbarthwyd y gwaith rhwng pymtheg o wragedd yr eglwys a chafwyd anerchiad byr gan Ina Tudno Williams.

## *Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth*



Yn ddiweddar, Llyfr yr Actau fu maes astudiaeth y grŵp bywiog hwn sy'n dod at ei gilydd bob wythnos i astudio'r Gair.

Gan ddilyn y gyfrol *Byw y Ffydd*, gan y Dr Elwyn Richards, a than arweiniad amyneddgar, ond cadarn, y Bugail, sy'n paratoi'n drylwyr ar ein cyfer, trafodwyd beth yn union a ddigwyddodd adeg esgyniad Iesu, ystyr 'siarad â thafodau' a beth yw hanfodion pregeth dda, yng ngoleuni pregeth orchestol Pedr ar y Pentecost. Tipyn o ddirgelwch i aelodau'r grŵp oedd hanes trasig Ananias a Saffira, a mynegwyd gofid am y ffaith fod erlid yn dal i ddigwydd i Gristnogion yn rhai rhannau o'r byd heddiw, fel a ddigwyddodd i'r apostolion adeg yr Eglwys Fore. Diddorol yw gweld hefyd pa broblemau a wynebai'r eglwys yn ei dyddiau cynnar – rhai ohonynt yn debyg i'r problemau y down ar eu traws yn ein dyddiau ni – a sut yr aethpwyd ati, trwy weddi a gweithred, i ddatrys y problemau hynny.

Fel arfer, cynhelir y cyfarfodydd am 7 o'r gloch ar nos Iau (er y gall amrywio o bryd i'w gilydd) a hynny yng ngwahanol gapeli'r ofalaeth yn eu tro. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch ag ysgrifennydd eich capel neu ewch i ddyddiadur gwefan y Garn (www.capelygarn.org/dyddiadur).

Trowch i mewn atom – mae'r nifer sy'n mynchu wedi cynyddu dros yr wythnosau diwethaf hyn, ond byddai'n hyfryd gweld rhagor eto yn ymuno. Mae croeso cynnes i bawb.


| ***Cadeirydd yr Ofalaeth*** | ***Ysgrifennydd yr Ofalaeth*** |
|---|---|
| Mr J T Brian Davies,<br>Rhos, Taliesin,<br>Machynlleth, SY20 8JG<br>betidavies@btinternet.com<br>(01970 832239) | Mr John Leeding,<br>Glannant, Taliesin,<br>Machynlleth, SY20 8JH<br>glannant@googlemail.com<br>(01970 832672) |

## *Grŵp Help Llaw y Garn*

Mae'r Grŵp Help Llaw yn dal i gwrdd yn gyson am 2.30 ar brynhawn Mercher.

Llwyddwyd i orffen y sgwariau noddedig ar gyfer Cynllun Draig Tŷ Hafan. Aethpwyd â llwyth o nwyddau i'r Cwfaint yn Nolgellau – dechrau ei daith i Lithuania. Yn ogystal â theganau meddal a dillad wedi eu gwau, roedd casgliad sylweddol o offer ysgrifennu a lliwio ar gyfer yr ysgol leol.



Cyn diwedd mis Mawrth bydd llwyth o fwydydd sych ac ati ar ei ffordd i Mostar yn Bosnia – cynhaeaf y bore agored yn festri'r Garn ddydd Sadwrn y 15fed. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mor hael ac a weithiodd mor ddygn.

Derbyniwyd tystysgrif oddi wrth Gyfarwyddwr Oxfam i werthfawrogi ymdrech y Garn yn casglu stampiau er budd y mudiad. Cyflwynwyd dros 22,000 o stampiau ar ôl y Nadolig.

Dewiswyd Ffagl Gobaith fel yr elusen leol i gyfrannu ati eleni.

Diolch i bawb am bob cyfraniad a chefnogaeth.

## *Gerlan*

*Oedfaon y Nadolig a Dechrau Blwyddyn*
Y Parch Richard Lewis a gymerodd yr oedfa bore Nadolig o gwmpas Bwrdd y Cymun. Croesawyd nifer o rai a fagwyd yn y Gerlan ynghyd â chyfeillion atom.

Cynhaliwyd yr Oedfa Weddi Undebol fel arfer yr wythnos gyntaf o Ionawr dan arweiniad y Parch. Wyn Morris, gydag aelodau o Eglwys St Mathew a'r Gerlan yn cymryd rhan. Gwnaed casgliad o £90 i Gymorth Cristnogol. Yr organyddes yn y ddwy oedfa oedd Eurgain Rowlands.

*Y Gymdeithas*
Rhagfyr: daeth Gerald Morgan, cyn-brifathro Penweddig atom i sôn am ei hoffter o gasglu llyfrau, a daeth â nifer o lyfrau prin iawn i'w dangos i ni.

Ionawr: ymwelodd y Fari Lwyd â ni ar ddechrau'r flwyddyn yng nghwmni un o'n haelodau, Mathew Clubb, a Geraint Williams o Landre, a chafwyd hanes un o'r hen draddodiadau Cymreig.

Chwefror: y tro hwn y Parch. Wyn Morris a ddangosodd ffilm ddiddorol i ni o rai pyllau glo, yn arbenig y cloddio cynnar yng Nghwm Gwendraeth yn sir Gaerfyrddin, a chafwyd hefyd brofiadau blynyddoedd maith Islwyn Jones yn y diwydiant glo.

Mawrth: dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda chinio ardderchog yng nghwesty'r Marine. Y gŵr gwadd oedd y diddanwr Hedd Bleddyn, sy'n enwog am ei storïau a'i limrigau.

Cawsom dymor hynod o ddiddorol eleni eto. Diolch i Nansi Hayes am ei gwaith diwyd fel arfer fel ysgrifenyddes y Gymdeithas.

Y Trip Blynyddol: edrychwn ymlaen eleni eto at y wibdaith hon a gynhelir tua chanol Mehefin a'r daith eisoes wedi ei threfnu. Cysyllter â Nansi Hayes ar 871255.

*Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd*
Cafwyd oedfa fendithiol eleni eto brynhawn Gwener, 7 Mawrth, yn y Gerlan. Croesawyd chwiorydd o Eglwysi St Mathew, St Mihangel Eglwys-fach, a'r Gerlan, a chymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o'r tair eglwys. Rhoddwyd yr anerchiad gan Nansi Hayes a'r organyddes oedd Eurgain Rowlands. Gwnaed casgliad o £95.

## *Cymdeithas Lenyddol y Garn*



Gwyn Angell Jones, y Felinheli, fu'n sôn am ei ymweliad ag Ysbyty Jowai, India, yng nghyfarfod mis Chwefror. Cafodd ei eni yn Jowai, a threuliodd flynyddoedd ei blentyndod yno yn fab i genhadon o Gymru.

Aeth yn ei ôl i India yn 2006 a sefydlu apêl i godi arian tuag at Ysbyty Jowai. Erbyn hyn, mae wedi llwyddo i godi dros £40,000 i wella'r cyfleusterau yno.

Neges olaf Dewi Sant, sef: byddwch lawen, cedwch y ffydd a gwnewch y pethau bychain, oedd thema cyflwyniad arbennig iawn gan Beti Griffiths, Llanilar, gyda chymorth ei brawd Isaac Griffiths a'i ffrind Eirwen Hughes, yng nghyfarfod mis Mawrth.



## Ebrill

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Erddyn James / Vernon Jones*

| | |
|---|---|
| *2* | Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch<br>Gŵr gwadd: Y Bugail |
| | Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o'r gloch<br>yng Nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth |
| **6** | Y Parchedig M J Morris |
| 9 | Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o'r gloch<br>yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont |
| 11 | Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch |
| **13** | Y Parchedig Ddr Terry Edwards |
| 16 | Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o'r gloch<br>yng Nghapel Bethel, Aberystwyth |
| **20** | Bugail<br>Cymun yn oedfa'r bore |
| 23 | Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o'r gloch<br>yng Nghapel Horeb, Penrhyn-coch |
| **27** | Mr Tecwyn Jones |
| 30 | Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o'r gloch<br>yng Nghapel y Garn |

## Mai

*Blaenor y Mis: D Bryn Lloyd*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

**4** Miss Beti Griffiths

*7* Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o'r gloch
yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth

**11** *Sul y Pentecost*
Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth
Oedfa deuluol am 10 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch

**18** *Sul Cymorth Cristnogol*
Oedfa unedig i'r ofalaeth ac aelodau Eglwys Noddfa am **10.30 o'r gloch**, dan arweiniad y Bugail

Cinio Bara a Chaws i bawb yn dilyn yr oedfa

Oedfa gymun am 5 o'r gloch dan arweiniad y Bugail

**25** Richard Llwyd Jones

***Blodau'r Cysegr***

Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Nest Davies am ei gwaith diwyd yn gofalu bod blodau yn harddu'r allor o Sul i Sul.

Os hoffech gymryd eich tro i roi blodau, mae croeso i chi ychwanegu eich enw at y rhestr yng nghyntedd y capel neu gysylltu â Nest. Diolch am bob cyfraniad.

## Mehefin

*Blaenor y Mis: Dewi Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Marian B Hughes / D Bryn Lloyd*

**1** Y Parchedig J R Jenkins
Bugail

6 Te Bethlehem
Ysgoldy Bethlehem, Llandre, am 6.30 o'r gloch

**8** Yr Athro Alwyn Roberts

**15** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**22** Huw Roderick
Y Parchedig Ddr J Tudno Williams

25 Gweithgor Os Mêts yn festri'r Garn am 7 o'r gloch

**29** Y Parchedig R W Jones

***Adroddiadau'r Garn***

Byddai Eddie Jones yn falch o dderbyn copïau o Adroddiadau'r capel o 1918 hyd 1924.

***Mynwent y Garn***

Mae'r fynwent yn lliwgar iawn y gwanwyn yma gyda'r holl gennin Pedr yn eu blodau. Diolch i Emlyn Rees.